



Y NEGESYDD

Rhagfyr
2020



Sandro Botticelli



BUGEILIAID Y STRYD BANGOR YN DATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG

Eleni mae Bugeiliaid y Stryd Bangor yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeg oed. Ar noson Tân Gwylt, Tachwedd 5ed, 2010 aeth criw ohonom allan am y tro cyntaf yn ein lifrau swyddogol i gerdded strydoedd y ddinas. Ers hynny rydym wedi cwblhau miloedd o oriau gwirfoddol yn cynorthwyo a diogelu nifer di-ri o bobol anghenus a bregus o bob oed. Cyn i'r haint ein gorfodi i gau siop, roedd y Bugeiliaid wedi llwyddo i redeg patrol o leiaf unwaith yr wythnos bron yn ddi-dor am ddegawd. Dipyn o gamp o ystyried mae gwirfoddolwyr rydym i gyd!

Tua 16 ohonom oedd yn y criw cyntaf hwnnw, a dros y blynyddoedd mae'r nifer wedi amrywio yn ôl amgylchiadau. Ar hyn o bryd mae o gwmpas ugain yn fugeiliaid "weithredol" (h.y. sy'n mynd allan ar patrol) a nifer cymharol yn gefnogwyr, gan gynnwys ein bugeiliaid gweddi. Yn ôl rheolau'r mudiad, grŵp cydenwadol ydym ni, gydag aelodau yn tarddu o bob traddodiad Cristnogol. Er ein bod dan nawdd Cytûn Bangor, mae croeso i unrhyw aelod eglwysig o rywle ymuno. Yn wir mae gennym aelod o'r Eglwys Uniongred ym Mlaenau Ffestiniog ac un arall o eglwys y Bedyddwyr Caergybi yn ein plith! Mark a Carina King o eglwys Mosaic yw ein cydlynwyr, gyda chymorth pwyllgor rheoli. Fel y gwyddoch, Emaus yw cartref y Bugeiliaid, fel y bu o'r cychwyn, ac rydym yn hynod o ddiolchgar am y gymwynas.

Sefydlwyd mudiad Bugeiliaid y Stryd ar ddechrau'r ganrif gan y Parch Les Isaac, gweinidog croenddu o Lundain. Roedd am geisio lleihau trais ac anghydfod ar y strydoedd yn ogystal â dangos cariad Duw mewn ffordd ymarferol. Buan y lledaenodd y mudiad i gynnwys trefi a dinasoedd ar hyd a lled y DU - ac yn wir o gwmpas y byd. Yn anffodus mae trais ac anghydfod yn parhau ar strydoedd nifer o ddinasoedd ond, diolch i'r Drefn, nid oes dim niwed wedi dod i'r Bugeiliaid. Yma ym Mangor, y broblem fwyaf yw gor-yfed a defnydd o gyffuriau, ymysg pobl o bob oed - nid yn unig myfyrwyr! Mae'r heddlu a'r awdurdodau lleol (cyngorau sir, cymuned a dinas) wedi bod yn gefnogol inni o'r cychwyn, yn arbennig yn ariannol, ac rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Ni fuasai Bugeiliaid Stryd Bangor wedi goroesi cyhyd heb nawdd ariannol yr eglwysi a'r awdurdodau sifil yn ogystal ag ymrwymiad a dyfalbarhad yr aelodau. Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch chi hefyd sydd wedi ein cefnogi dros y blynyddoedd.

Pan ddaeth y clo mawr ym mis Mawrth eleni, bu rhaid i'r Bugeiliaid rhoi'r gorau i fynd allan ar strydoedd Bangor ac nid ydym wedi gallu ailgychwyn hyd yn hyn. Hyd y gwelaf i, mae'n debyg na fyddwn yn weithredol am weddill y flwyddyn. Ond pan fydd cyfnod y pla drosodd, mi fydd yn braf cael ailafael yn y weinidogaeth arbennig yma. Boed bendith a thangnefedd Duw ar strydoedd y ddinas a'i thrigolion tan hynny!

- Eleri



CORNEL POSAU GARETH

ATEB I BOS TACHWEDD 2020

DAIL YR HYDREF

Wrth ddyblu'r uchder a dyblu'r diamedr mae nifer y dail yn cynyddu wyth gwaith. Felly mae tua 1200 o ddail yn y pentwr newydd (sef 150×8).

POS RHAGFYR 2020

TAIR CORON


Wrth baratoi ar gyfer eu taith hir mae'r brenin Caspar wedi dewis y goron hon

**CORON
CASPAR**




Mae 13 triongl yn y goron.
Fedrwn chi eu gweld i gyd?

**CORON
BALTHASAR**



Sawl triongl sydd yng nghoron y brenin Balthasar?

**CORON
MELCHIOR**



Sawl triongl sydd yng nghoron y brenin Melchior?

Bydd yr atebion yn rhifyn lonawr.

EMAUS AR WAITH:

drod £5K i elusennau

Ers dechrau'r pandemig, gan gynnwys Apêl Diolchgarwch, mae aelodau a ffrindiau'r Eglwys wedi cyfrannu:

- £2225 i'r Banc Bwyd ym Mangor
- £1552 i Gymorth Cristnogol (gan gynnwys Apêl Nicaragwa)
- £460 i'r BMS i gefnogi gwaith ysbyty yn Chad.
- £1104 at waith y BMS yn gyffredinol at addysgu plant ffoaduriaid yn Lebanon a gweithgareddau eraill.

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys cyfraniadau a anfonwyd gan unigolion yn uniongyrchol i'r mudiadau.

*Diolch i bawb
am bob
cefnogaeth yn yr
ymgyrchoedd ymarferol
hyn.*

*Dymuna Olwen a Dewi
gydnabod yn ddifffiant iawn
pob ffurf o gydymdeimlad
a charedigrwydd
a dderbynwyd ganddynt
yn y brofedigaeth lem
a ddaeth i'w rhan fel teulu
yn ddiweddar.*

Diolch yn fawr iawn.

- Olwen a Dewi Davies

CWRDD GWEDDI CHWIORYDD BEDYDDWYR Y BYD 2020



Fe es i at y gwaith o gyfieithu ac addasu oedfa weddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd eleni heb wybod a fyddai modd cynnal yr oedfa o gwbl. Roeddwn i'n hynod falch felly fod chwiorydd Arfon wedi mentro i'w chynnal ar Zoom, ar yr amser hwylus o 5 o'r gloch yr hwyr, ar y ddydd Llun arferol ar ddechrau mis Tachwedd.

Lluniwyd yr oedfa eleni fel clytwaith o gyfraniadau o bob rhanbarth, a drwy'r sylwadau a'r gweddïau cawson ni oedi o flaen Duw yng nghymdeithas ein chwiorydd ledled y byd, yn ogystal â chwiorydd Arfon. Fel rhan o'r oedfa, clywson ni am y dechreuadau yn 1948, ar ôl yr ail ryfel byd. Bryd hynny roedd rhaniadau rhwng cenhedloedd a phobl yn amlwg, a bywydau cymaint wedi cael eu chwalu. Daeth chwiorydd ynghyd y tro cyntaf hwnnw o 19 o wledydd, o dan bwysau colled a siom, gyda'r bwriad o ddechrau gweddïo gyda'i gilydd. Ac wrth iddyn nhw weddïo Gweddi'r Arglwydd gyda'i gilydd, dechreuodd eu clwyfau gael eu hiachau.

Er nad oes rhyfel byd newydd ddod i ben eleni, mae'r pandemig wedi rhwygo cymunedau a chenhedloedd ar draws y byd, felly roedd hi'n briodol ein bod ni unwaith eto yn gweddïo gyda'n gilydd, a throsom ni'n gilydd. Merched Cymanfa Arfon fu'n trefnu ac yn cymryd rhan, ond cawson ni hefyd groesawu merched o Gymru i gyd, gan fod Zoom mor hwylus! Roedd hi'n braf iawn i weld Ruth Davies, a nifer o ffrindiau eraill. Mae ein diolch arbennig i Eleri Lloyd Jones am drefnu, i Menna Machreth a Cadog am y dechnoleg, ac i bawb o chwiorydd y Gymanfa fu'n ein harwain, gan gynnwys Pat, Elen, Nia, Sian ac Eleri o Emaus. Llywyddwyd gan Elizabeth Roberts, Penrhyn, Llywydd Chwiorydd Arfon.

Jill Tomos

CHWIORYDD ARFON

Eleni, cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd ar Zoom oherwydd Cofid 19. Ymunodd chwiorydd o rannau eraill o Gymru gyda ni ac fe welsom wynebâu cyfarwydd - Ruth Davies (Is-lywydd Mudiad y Chwiorydd), Ann Bowen Morgan a Gwen Aaron ac roedd yn hyfryd cael eu cwmni. Trefnwyd y gwasanaeth gan Eleri Lloyd Jones (Llywydd Mudiad y Chwiorydd ac Ysgrifennydd Chwiorydd Arfon) a chymerwyd rhan gan nifer helaeth o chwiorydd Emaus. Llywyddwyd gan Elizabeth Roberts, Penrhyn, Llywydd Chwiorydd Arfon.

Er mwyn hyrwyddo pethau, daeth neges oddiwrth Hazel Williams Jones (Trysorydd Mudiad y Chwiorydd) i ddweud bydd y casgliad blynyddol ar agor tan ddiwedd Rhagfyr. Dwi'n gwybod fod rhai eglwysi ac unigolion wedi cyfrannu'n barod ond ar gyfer unrhyw gasgliadau ychwanegol, gofynnir yn garedig ichi anfon neu roi y cyfraniad i Sian Arwel Davies (Trysorydd Arfon), Gwêl y Don, Lôn Brynteg, Llandegfan, Ynys Môn, LL59 5UA, gyda sieciau'n daladwy i Pwyllgor Chwiorydd Arfon os gwelwch yn dda. Anfonnir un sicr wedyn ar ran Arfon i Hazel a gallwn nodi cyfraniad Chwiorydd Arfon am 2020.

Sian Arwel Davies

DIOLCH

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gymryd rhan yn yr oedfa nos Lun, Tachwedd 2il, ar Zoom. Cawsom amser bendithiol gyda'n gilydd, nid yn unig yng nghwmni rhai o chwiorydd Cymanfa Arfon ond hefyd chwiorydd o bob rhan o Gymru. Yn eu plith oedd y Parch Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, ac aelodau o Bwyllgor Rheoli Mudiad y Chwiorydd. Mae adroddiad - a llun! - ar dudalen flaen y copi cyfredol o Seren Cymru. Diolch eto i chi i gyd.

Eleri Lloyd Jones

YCHYDIG O HANES GLENDA JONES

Yr ydwi'n ymateb i gais Elen Lansdown. Gofynnodd, gan ei bod yn dymor y Pantomeim, a minnau'n aelod o *Gwmni Drama Llechen Las*, a fuaswn yn ysgrifennu ychydig am fy nghefnidir, y dylanwadau arnaf, ac a oeddwn wedi actio gydol f'oes ac yn y blaen.

Mae hyn wedi procio'r cof a pheri i mi ofyn faint o ran ydy drama yn fy mywyd.

Y cof cyntaf sydd gen i ydy perfformio ar lwyfan yr ysgol - cân actol mae nifer ohonoch yn ei chofio dwi'n siŵr sef "*Mae'n bwrw glaw yn sobor iawn...*". Cofiaf y mwynhad a gefais, ac fe wnaeth hynny barhau. Bu nifer o ganeuon actol, dramodigau, adrodd a chanu yn yr ysgol ac wrth gwrs y capel - Capel Ebeneser Deiniolen. Yno dysgem rannau yn y Gobeithlu, (ond i ni, y "*Band o Hôp*") ac ar gyfer gwasanaethau ac erbyn i ni fod yn hŷn - y *Gymdeithas Lenyddol*.

Bu'r teulu hefyd yn rhan bwysig o ddrama fy mhentyndod ac ieuencid. Ar ochr fy mam oedd yr adrodd, a'r canu ar ochr fy nhad.

Llwyfan arall oedd Deiniolen ei hun. Elfen amlwg o'n chwarae oedd actio pobl eraill, e.e. cowbois, chwarae siop neu dŷ, a chwarae ysgol. Hoffem hefyd actio digwyddiadau neu achlysuron arbennig y pentref fel coroni Brenhines y Carnifal. Roedd yn braf hefyd ail-fyw ffilmiau a welsom ym Rhictiws Deiniolen neu weithiau Plaza Bangor. Roedd yna wal arbennig yn un o'r caeau. Byddem yn sefyll ar honno i berfformio i'n byd mawr ni (wel, mor bell â Chastell Caernarfon sydd i'w weld o Ddeiniolen.)

Yn Ysgol Uwchradd Brynrefail parhaodd y perfformio mewn cyngherddau. Disgyblion y chweched dosbarth oedd yn gyfrifol am ddysgu'r corau ar gyfer yr eisteddfod. Y côr adrodd oedd fy nghyfrifoldeb i.

Yn Y Coleg Normal ymunais â'r cwmni drama. Uchafbwynt y gweithgareddau oedd cael perfformio '*Per Gynt*' (Ibsen), yn Eisteddfod Genedlaethol Fflint 1969. Roeddem yn freintiedig iawn yn cael ein hyfforddi a'n cyfarwyddo gan Edwin Williams, Huw Lloyd Edwards, Morien Phillips a J. O. Roberts. Mawr oedd ein dyled fel myfyrwyr am eu hymroddiad a'u dawn o ennyn brwdfrydedd ynom.

Newidiodd fy rôl ar ôl gadael coleg i fod yn athrawes. Fi erbyn hyn oedd yr hyrwyddwr. Yn wahanol i ddyddiau fy mhentyndod roedd gwersi drama (gan gynnwys ambell wers ddawns greadigol) erbyn hyn ar amserlen yr ysgol. Roedd yn fodd i blant ddod i ddeall gwahanol sefyllfaoedd a sut i ymateb iddynt.

Yr ydw i'n parhau i gael cyfle i weithio ychydig gyda phlant. Wedi i mi ymddeol a dychwelyd i'r Gogledd, cefais wahoddiad i ymuno â grŵp '*Agor y Llyfr*' sy'n cyflwyno dramodigau o hanesion o'r Beibl mewn gwasanaeth boreol ysgolion cynradd. Daw hynny â phleser a boddhad i mi.

Fe wnes i ymuno â *Chwmni Drama Llechen Las* hefyd. Hyd yma dw'i wedi actio mewn drama ac wrth gwrs y Pantomeim blyneddol sy'n boblogaidd iawn gan bobl Bethesda a'r cylch. Daw gweithio ar rywbeth fel hyn â phobl o bob oedran at ei gilydd, a cheir digon o hwyl a chyffro.

Mae'r ddrama yn parhau yn ein tŷ ni. Cawn 'gyngerdd' yn aml. Roedd gan ein merched ni "*focsdilladactio*" pan oeddynt yn blant. Cafodd fy wyresau hefyd fwynhad wrth dwrio i'r bocs hwnnw.

Dw i'n gobeithio y byddant, y saith ohonyn nhw, yn gallu edrych yn ôl a sylweddoli mor werthfawr y bu '*chwarae pobl eraill*' yn eu plentyndod, fel y bu i minnau.

- Glenda



Y CYMERIAD “CAROL” YN CAMP A RHEMP

FEL TOMI TWP YN Y PANTO “LLANAST LLAN”

TRAIDCRAFT

NEWYDDION TRAIDCRAFT

Mae digon o'r nwyddau arferol
ar gael yn y capel.

Dyma'r cyfle olaf i archebu
cyn y Nadolig,
a hefyd i archebu cardiau Nadolig.

Yn ôl yr arfer,
ni fyddwn yn derbyn archebion
ym mis Ionawr.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy
flwyddyn anodd i bawb.

Oherwydd eich cefnogaeth,
bydd modd unwaith eto i ni
rannu'r elw rhwng y BMS,
ac apel Nadolig Cymorth Cristnogol
a Traidcraft Exchange.

Catrin Evans

ENGLYNION I'R NADOLIG

MAIR

O Fair! Yr wyt anfarwol, - nef a wŷr,
Wyt forwyn neilltuol;
Cân y ddaear ei charol:
Onid y Gair sy'n dy gôl?

(James Nicholas)

YMSON MAIR

Heno datgelwyd i minnau paham
Y mae pen y brynau
Oll yn oll yn llawenhau, -
Mae'r achos yn fy mreichiau.

(T Arfon Williams)

MWYNHAU

Mae hi wedi bod yn braf clywed yr emyn dôn Llanddwyn
o eiddo Enid Griffiths (80 yn CFf) yn **Dechrau Canu**,
Dechrau Canmol yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Roedd yn fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 2000 a'r
geiriau gan y diweddar Dafydd Whittall.

Sian Arwel Davies

BERYL DAVIES 1928 - 2020



Ganwyd Beryl Davies ar yr unfed ar ddeg ar hugain o Orffennaf 1928 nid ym Mangor ond yn Ffarm Fedw, Abergwyngregyn. Ar ddiwrnod ei genedigaeth, roedd ei thad wedi cychwyn o Fangor i Fanceinion am y dydd gyda'i waith ac wedi mynd â'i gymar at ei rieni i fod yn saff. Felly yno ar aelwyd ei thaid a'i nain y daeth i'r byd.

Magwyd hi yn nhŷ'r teulu yn Hiracl gyda'i dwy chwaer, Mair a Gladys, a'i brawd, y diweddar Gwynfor. Mewn blynyddoedd, cyfarfu â Sulwyn a phriodwyd y ddau yn 1951 yng Nghapel Penlôn, ac ym mhen amser ganwyd iddynt chwech o blant sef Ann, Rhian, John, Bryn, Siân a Iona. Roedd hi'n ddynes brysur yn magu llond y tŷ o blant, a thros y blynyddoedd, bu hefyd yn gweithio i nifer o gwmnïau a sefydliadau. Gweithiodd i gwmni Manweb, i'r BBC ac i'r Bwrdd Dŵr. Bu'n cadw siop melysion yn Stryd y Deon a bu'n cynorthwyo ar gyfnod arall yn y feithrinfa ar Ffordd Penrhos.

Roedd hi a Sulwyn yn selog iawn yng nghapel Pendref. Meddai'r Parch John Gwilym Jones wrth gofio am gysylltiad Beryl a'r teulu â Phendref:

"Un o'r atgofion melyn fydd gennyf am ein gwasanaethau fydd cofio gweld eu sedd deuluol hwy yn llawn dro ar ôl tro. Ac atgof arall fydd cofio'r croeso cynnes a gawn ar ei haelwyd, a'i phlant o'i hamgylch. Diolch iddi am fod yn rhan werthfawr o'n bywyd ni fel eglwys."

Oherwydd afiechyd a gwaeledd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, chafodd hi mo'r cyfle i ymuno gyda gweithgareddau Emaus ond llwyddwyd i gadw cysylltiad â hi drwy ei mab Bryn a'i merch Ann, un o ffyddloniaid oedfa'r bore yn Emaus.

Roedd hi'n dda fod adeilad Emaus wedi medru ailagor i gynnal gwasanaeth i ddiolch am fywyd Beryl. Doedd dim modd ichi fel cyd-aelodau a ffrindiau i fod yno ond cefais y fraint i'ch cynrychioli chi fel eglwys. Roeddwn yn ddiolchgar iawn o gwmni ac o gymorth Gareth Ffowc a Dilwen Lloyd Jones i agor yr adeilad a chynorthwyo gyda'r stiwardio.

Roedd y gwasanaeth a gynlluniwyd gan y teulu, yn un oedd yn adlewyrchu personoliaeth dawl a diymhongar Beryl ei hun. Dewiswyd cerddoriaeth gan y teulu oedd yn cynnwys rhai o ffefrynau Beryl. Ar y dechrau clywsom ddeuawd hyfryd gan Bryn Terfel a Rhys Meirion yn canu gosodiad o'r drydedd Salm ar hugain gan Robat Arwyn. Yn nes ymlaen clywsom Rhys Meirion yn canu *'Pedair Oed'*, cân a ddewisodd Beryl ar gyfer cais pen-blwydd ar y radio yn gynharach eleni. Daeth y gwasanaeth i ben yn sain datganiad ar y gitâr glasurol o'r emyn dôn *"Gwahoddiad"* yn cael ei chwarae gan Gerard Cousins. Daeth y Dr Claire Kilduff, wyres i Beryl, ymlaen i dalu teyrnged ddiffuant i un oedd yn fam a nain addfwyn, yn dyner a hoffus i'w phlant, eu hwyron ei chworydd a'i brawd ac i'r holl deulu dros y blynyddoedd a darllenodd y gerdd *Mi Gerddaf Gyda Thi*. Cawsom hefyd glywed y geiriau cyfarwydd o lythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid sy'n sôn am gariad, oedd yn adlewyrchu i'r dim personoliaeth Beryl, wedi eu darllen yn greffus gan Cai Vaughan Davies, un o'i hwyron.

Diolch i Dduw am berson diymhongar nad oedd yn dymuno ffys na sylw ond oedd mor barod i helpu a gofalu am eraill a diolch am ei ffyddlondeb i Dduw ac i eglwys Pendref. Wrth ei chyflwyno i ofal Duw, gweddiwn am nerth a chynhaliad i'r teulu yn eu galar a'u colled.

Casi M Jones

FY HOFF GAROL

Pe cawn fy ffordd, fe fyddwn yn canu Carolau drwy gydol y flwyddyn, cymaint yw fy hoffter ohonynt. Pleser hyfryd felly i mi, un mis Mai yn 2008, oedd cael y cyfle i recordio cryno ddisg gyfan o garolau gyda Chôr Seiriol ac ar ben hynny, eu dysgu a'u paratoi yn y misoedd a oedd yn arwain at hynny.

Ond sut i ddewis un hoff garol?! Tasg amhosib ddywedwn i, a gallai'r dewis fod yn wahanol o un wythnos i'r llall. Mae cymaint ohonynt yn fy atgoffa o amser penodol yn fy mywyd, e.e mi allwn ddewis y garol dlos *'Mae'r nos yn Fwyn'* ar y dôn *'Vilda'*, gan ei bod yn dod ag atgofion melys o ddyddiau glasoed wrth grwydro o amgylch y pentre yn Llanuwchllyn gydag Aelwyd y Llan, a'r canu mewn harmoni clos yn nhywyllwch oer y gaeaf yn rhoi rhyw hud arbennig i'r cyfan.

Uchafbwynt blynyddol i ni fel athrawon a disgyblion Ysgol David Hughes oedd y gwasanaeth Nadolig, a chafodd sawl carol hen a newydd ei threfnu a'i pherfformio gan genedlaethau o ddisgyblion talentog. Rhaid wrth gwrs oedd cloi'r gwasanaeth gydag *'O Deuwch Ffyddloniaid'* i gyfeiliant cerddorfa ifanc. Yn wir teimlwn wefr o'i chlywed, ac arwydd pendant fod yr Ŵyl ar ddechrau.

Mi allwn hefyd ddewis y garol *'Ganol gaeaf noethlwm'* a'r alaw hudolus a hynafol ei naws o waith Gustav Holst sydd bob amser yn cyffwrdd yr enaid. Neu beth am ein carolau 'cyfoes' poblogaidd megis *'Alaw Mair'* o waith Delwyn Sion a Cefin Roberts. Ni fyddaf fyth yn blino ar wrando ar angerdd yr alaw ingol hon

Rwy'n agosáu at ddewis y garol uchaf yn y siart yn ara bach! Ymhlith fy hoff garolau a gyfansoddwyd yn ail hanner y ganrif ddiwethaf, mae *'Doethion a Bugeiliaid'*, geiriau Gwyn Thomas i gerddoriaeth William Mathias. O wrando arni, mae'r briodas arbennig rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth yn cwmpasu llawenydd a neges obeithiol stori'r Nadolig i mi ac yn codi calon bob tro.

Ond o bwysu a mesur, mae un garol yn dod i'r meddwl sy'n cyfuno hud yr hen hen stori â chyfoeth cerddorol y garol, ar eiriau Wil Ifan, a cherddoriaeth David Evans:

*Tua bethlem dref,
awn yn fintai gref,
ac addolwn ef.*

Mae uchafbwynt cerddorol yn y byrdwn gorfoleddus yn ein gwahodd ninnau yn 2020 i ymuno yn yr addoli a dathlu'r stori ryfeddol hon.

*Gyda'r llwythau
unwn ninnau
ar y llwybrau at y crud.
Tua'r preseb awn
gyda chalon lawn
a phenlinio wnawn*

Dymunaf Nadolig llawen a bendithiol i chwi oll.

Gwennant Pyrs



MIS TACHWEDD

ATGOFION RICHARD A JANE ROBERTS

Ni fu fawr o awydd gennym i edrych ar y teledu na gwrando ar y radio na darllen rhyw lawer yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Buom yn hel atgofion am ein cyfnod ym Mhenuel ac am fis Tachwedd yn arbennig.

Dyma'r mis y dechreuon ni ar ein bywyd priodasol. Yr oedd y gwasanaeth priodas yng Nhapel y Beirdd, Eifionydd a gwneuthom ein cartre cynta yn Ceidio ger Nefyn, a chael croeso a charedigrwydd mawr gan bobl yr ardal. Fe wnaethom brofi addysg y werin ar wahanol aelwydydd. Bu'r profiada a'r hanesion yn adeiladol. Yr ydym yn cofio llawer cyngor doeth a gafwyd yn y cyfnod hwnnw hyd heddiw.

Yn Gwanwyn 1958 - aros yng Nghaernarfon am dridia i gael mynd i Undeb Bedyddwyr Cymru, i Penuel, capel modern newydd yn y cyfnod hwnnw. A'r diweddar Dr Thomas Richards yn Llwydd. Am hanner awr wedi wyth drannoeth roedd y capel yn llawn. Eistedd yn y galeri yn gwrando ar y diweddar Barch R Pari-Roberts, Mynachlog Ddu, yn pregethu o Lyfr Job. Un bregeth am 8.30, dwy am 10 a dwy am 2 a dwy am 6. Fawr feddwl y pryd hynny y buasem yn ymaelodi yn Penuel, Tachwedd 1959.

Faint o'r bobl ifanc bryd hynny sydd yn aelodau yn Emaus eleni? Gareth ac Ann Roberts, Eirlys Owen, Rona Williams. Roedd Ruth Bassett, Yvonne Wilson, Marilyn Haydn Jones newydd fynd i'r ysgol uwchradd; Enid Bassett a Dewi Llwyd yn yr ysgol gynradd a phlant ifanc iawn oedd Eleri Lloyd Jones, Dilwen, Eleri Owen ac Aled.



CAPEL Y BEIRDD

Cyfnod pan oedd y gwragedd yn cysgodi dan ambarel swyddogaeth y gŵr - Mrs So & So. Y diweddar Mr Merfyn Bassett yn ei ddoethineb yn ein croesawu gan ddweud, 'rydych yn rhy ifanc i'ch galw yn Mr a Mrs', felly Richard a Jane fu hi. Ond roedd Richard Roberts arall yn aelod yn barod, sef Richard Roberts, High St. a dyma ddefnyddio'r enw canol i wahaniaethu.

Dyma ddechrau galw'r aelodau wrth eu henwau bedydd a hynny'n beth cartrefol pan ddaeth Dewi Llwyd a'r teulu, Ruth Davies a'r teulu ac Elen Lansdown yn ôl i'r aelwyd gynnes.

Tua diwedd Tachwedd, byddai'r ddau Richard yn dechrau paratoi llwyfan o hen ddrysau ac ati ar gyfer drama 'Dolig y plant. Dros gant o blant ar lyfrau'r Ysgol Sul ar un cyfnod ac roedd parti plant bach yn y prynhawn a'r bobl ifanc gyda'r nos.

Yng nghyfnod y Parch. Ifor Williams, newidiwyd y drefn o eistedd yn y festri. Y dynion ar y dde, y chwirydd ar y chwith a'r myfyrwyr yn y cefn oedd hi.

Tachwedd 1995 - symud o Ffordd Ffriddoedd i Benrhosgarnedd.


Erbyn diwedd mis Tachwedd fe fydd Taid a'i wŷr a'i orwyr bach wedi cael eu penblwyddi.

Diolch i gyn-aelodau'r eglwys am bob caredigrwydd ac arweiniad ac i aelodau presennol Emaus am eu gofal a llawer i alwad ffôn dros y cyfnod yma.

Richard a Jane



PENUEL YN Y 60au CYNNAR



Syr John Meurig Thomas FRS
1933 - 2020

Tachwedd 13 bu farw Syr John Meurig Thomas yn 87 oed. Daeth i Fangor ym 1958 i'r Adran Gemeg a gosod sylfeini i'w waith gwreiddiol ar gemeg cyflwr solet (*solid state*) a'i yrfa hynod o ddisglair. Roedd ei ddiweddar wraig, Margret, yn athrawes Ysgrythur yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yr oedd y ddau yn mynychu Pendref yn y chwedegau. Symudodd i Aberystwyth ym 1969 fel Athro Cemeg, ac yna ym 1978 cafodd alwad i gadair yng Nghaergrawnt. Ym 1986 daeth yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Brenhinol a'r flwyddyn ganlynol traddododd y gyfres boblogaidd o ddarlithoedd Nadolig i blant ar y testun 'Crisialau'.

Wedi cyfnod fel dirprwy is-gangellor Prifysgol Cymru, dychwelodd i Gaergrawnt fel Meistr Coleg Peterhouse ym 1993. Roedd yn Llywydd Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 2014 - lleoliad addas i fab glowr o Gwm Gwendraeth. Anrhydedd o'r mwyaf i wyddonydd yw rhoi ei enw i elfen ym myd natur: ym 1995 penderfynodd y Gymdeithas Fwynyddol Ryngwladol enwi'r mwyn 'Meurigite' ar ei ôl gan sicrhau y byddai Meurigite yn garreg goffa oesol i Syr John Meurig.

Gareth Jones



Y mwyn **MEURIGITE**
 $[K(H_2O)_2.5][Fe_3+8(PO_4)_6(OH)_7] \cdot 4H_2O$

DATHLU PENBLWYDD ARBENNIG



Tachwedd 20fed yr oedd Nancy Morris
yn dathlu ei phenblwydd yn 80.

Er y rhwystredigaeth o fethu cael parti go iawn, fe gafodd gysylltu drwy'r rhyngwyd ar y diwrnod efo'i phlant a'i theulu yng Nghaerdydd a Lerpwl a'i chwirydd a brawd yn America.

Y NEGESYDD

*Mae ein diolch yn fawr
i Elen Lansdown
am gasglu a chydlynu'r wybodaeth
ac annog rhai i gyfrannu deunydd
ar gyfer y rhifyn yma.*

Dylid gyrru'r holl wybodaeth
ar gyfer rhifyn Ionawr
i

GARETH FFOWC ROBERTS
e-bost :

ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com

neu, os y dymunwch,
YN SYTH I'R NEGESYDD
e-bost :

negesydd@btinternet.com

erbyn Rhagfyr 20 2020 fan bellaf.